

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona.**  
**A gynhaliwyd ar Nos Fercher Tachwedd 19 ddeg - 2014**  
**am 7.30 o'r gloch.**

**1. Presennol** - Cynghorwyr Myrddin Roberts (Cadeirydd, MR), Geraint Parry (Clerc), Carwyn Jones (CJ), Lewis Davies (LD), Rhian Hughes (RH), Paul Gash (PG), Maldwyn Williams (MW), Alwena Roberts, Mark Williams a Bari Gwilliam

**2. Ymddiheuriadau** - Cyng. Gill Cheverton, Dafydd Pritchard a Alwyn Rowlands.

**3. Datgan Ddiddordeb**

Cyng. L Davies ar gais 22C189E/VAR a 22C47B/1.

Cyng. M Williams ar drafodaeth Ty'n Waun

Cyng. R Hughes ar drafodaeth yr Ysgol.

Cyng. M Roberts a Cyng. A Roberts ar drafodaeth rhodd i Eglwysi lleol.

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed o Hydref fel rhai cywir gan Cyng. R Hughes, eilio gan Cyng. M Williams gan newid un pwynt.

Agorwyd y cyfarfod gan fynd yn syth i drafodaeth gyda Swyddogion o'r Heddlu a oedd yn bresennol.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

5.1 **Fynwent Llanddona** - dim newyddion ymhellach dilyn y gwrandawriad ar 28/10/14. Gobeithio cael ymateb cyn diwedd y flwyddyn.

5.2 **Llwybr Tai Bach** - Dim newyddion ymhellach. Cyngor Sir wedi ymateb ein llythyr wrth gadarnhau fod swyddog sydd yn delio a'r cais wedi dychwelyd yn ôl i'w waith ac yn paratoi adroddiad fel ei brif flaenoriaeth. CJ yn adrodd fod y Cyngor Sir wedi cysylltu â Mr E Evans yn ddiweddar. Cytunwyd disgwyl tan ddiwedd y mis cyn mynd ar fater ymhellach.

5.3 **Difrod ar y Traeth** - MR yn dangos dogfen gyda manylion parseli o dir a werthwyd yn 1935. Mae'n amlwg nad y bobl sy'n byw gerllaw yn berchen ar dir yma. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach.

5.4 **Gwasanaeth Cymdeithasol, adeiladu cymunedau Pobl Seiriol** - LD wedi ymuno a chyfarfod heddiw yn Llangoed, gyda thua 40 yn bresennol. Cyfarfod arall wedi ei drefnu ar 27/11. Mae £20k ar gael i greu Hwb Cymdeithasol yn yr ardal, ond mae teimlad fod galw am hwb yn Llanddona a Llangoed.

5.5 **Biniau yn Ponc y Felin** - CJ yn adrodd fod wedi cael contractwr yno i gael pris am y gwaith. Raglen grant cymunedol yn agor mis nesaf, fydd rhaid cael cefnogaeth pawb yn y stryd.

5.6 **Cerrig ger Llain Gron** - MR yn egluro rheswm gosod y cerrig, aeth lori oddi ar y ffordd ac ar y tir, gadael hoel. Mae gosod cerrig ar dir comin fel hyn yn digwydd o gwmpas y pentref.

5.7 **Galw Oer** - CJ wedi gosod y wybodaeth ar "Facebook" y Cymuned a hysbysebu'r sefyllfa. Cytunwyd i ofyn i'r Swyddog Cyngor Sir am fwy o sticeri galw oer er mwyn cael rhannu allan.

**6. Etholiad**

Cadeirydd yn estyn croeso cynnes i ein Cynghorwyr newydd - Mark Williams a Bari Gwilliam wrth arwyddo'r ffurflen "datganiad derbyn swydd".

**7. Ysgol Llanddona**

Trafodwyd papur gan Llywodraeth Cymru - "Gwaredu tir yng Nghymru gan awdurdodau am lai na'r pris gorau".

Pwyllgor y Neuadd - yn edrych ar amodau grant loteri fawr i bwrcasu'r Ysgol ond mae'n ymddangos bod llawer o gymhlethdodau yn gysylltiedig. Mae'r Cyngor Sir wedi awgrymu amserlen o 18 mis i gwblhau'r broses, ond mae hyn yn rhy dyn, gan fod angen rhagor o wybodaeth cyn cychwyn. Yn gyntaf bydd rhaid cael pris annibynnol o'r eiddo. Mae cais loteri ei hun yn cymryd 18 mis.

Dilyn ymweliad ar gyfreithiwr, nid oes unrhyw broblem ar werthu Neuadd y Pentref'.

LD - wedi anfon nifer o e-byst i'r Cyngor Sir ar y mater, ond heb dderbyn unrhyw ymateb.

**8. Adroddiad gan y Cynghorwyr**

**CJ** - band eang, ar ddeall fydd y gwaith mynd i gorffen ar Ynys Môn o gwmpas Medi 2015. Opteg ffibr wedi cyrraedd y cypyrddau gwyrdd, ond mae'r cyflymder dal yn araf yn bentrefi lleol. Mae darnau o'r Ynys gyda chyflymder o 20 - 30Mbps.

**LD** - Cyngor Sir yn gweithio ar gynllun gweithio'n gallach gyda chost o tua £1.1 - 1.6m. Mae nifer o bobl yn gofyn cwestiynau am y gost enfawr yma.

**LD** - Llwybr newydd Tan Dinas (rhif 57), ar ddeall fod y cais yma yn cael ei gwestiynu gan dirfeddiannwr. Llwybr yma i fynd i gael ei drafod mewn Fforwm Llwybrau Lleol.

## **9. Ceisiadau Cynllunio**

- 22C189E/VAR - Cais o dan adran 73 i ddiwygio amod 02 o caniatad cynllunio rhif 22C189C/DA er mwyn codi uchder y ty ar dir ger Glan Gors, Llanddona - dim gwrthwynebiad.
- 22C47B/1 - Cais llawn ar gyfer codi ports a modurdy yn 7 Wern y Wylan Estate, Llanddona - dim gwrthwynebiad.

## **10. Materion Tir Comin**

- Tir Comin yr Ysgol - wedi derbyn copi swyddogol o'r TR1. Clerc i gael copi o'r map.
- MW - eglurodd fod yr ardd yn Ty'n Waun wedi cael ei gofrestru yn anghywir fel tir comin ac wedi trafod y mater yma gyda Menter Môn. Penderfynwyd y byddai'n ddoeth i MW gyflenwi tystiolaeth a thrafod y mater gyda'i gyfreithiwr.
- RH - wedi derbyn cwyn swyddogol bod tîrfeddiannwr Pensarn wedi torri coeden sycamorwydden fawr ger ei eiddo. Oedd wedi cael caniatâd (Hydref 13) i dorri'r coed helyg yn unig.

## **11. Cod Ymddygiad**

Clerc wedi ymuno a hyfforddiant ar 30/10/14 gan y Cyngor Sir. Eglurodd y prif bwyntiau, dyletswyddau statudol, cod berthnasol, ddiddordeb ayyb.

## **12. Cyfrifon -**

Clerc yn rhannu gwybodaeth gwariant ac incwm hyd at ddiwedd chwarter 2  
Penderfynwyd talu:-

- Royal British Legion, Wreath - £18.00
- I Roberts, cynnal a chadw llwybrau lleol - £1,500
- Rhodd i Eglwysi St Donna ac St Iestyn - £550.00

## **13. Gohebiaeth**

Llythyr - Arolygiaeth Cynllunio, datganiad achos Llwybrau 15 a 22  
Llythyr - Cynllun datblygu lleol ar y cyd, cyfarfod 7/11/14  
2 x e-bost - ERW Consulting, cais rhyddid gwybodaeth  
e-bost - A Hayes, taith beics  
e-bost - L Davies, Ysgol Llanddona  
e-bost - C Jones, sŵn saethu  
e-bost - C Jones, dolphin bach  
Llythyr - Carys Hughes cyfreithiwr, copi cofrestrfa tir CYM52763  
Llythyr - Cyngor Sir, Fforwm Cynllunio 13/11/14  
Apêl - Eisteddfod Gerddorol Llangollen  
Llythyr - Cyngor Sir, lwybr cyfochrog a Tai Bach  
Apêl - Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2015  
Apêl - Canolfan Bobath therapi Plant  
Llythyr - Cyngor Tref Biwmares, digwyddiad Fictoraidd 29/11/14  
Llythyr - Pwyllgor Neuadd Llanddona, Cyngor Sir/Ysgol Llanddona

## **14. UFA:**

- 14.10 Cawsom drafodaeth ar faterion lleol gan PSCO Natalie Tookey a Iona Beckman a phenodwyd i'r ardal hon - bod angen adrodd iddynt ar faterion fel baw cŵn, goryrru, ymddygiad gwrthgymdeithasol ayyb. Eglurwyd nad ydym wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach am y canabis a dyfir ar fferm leol. Maent yn mynd i edrych i mewn i'r cwyn o'r sŵn saethu sydd yn mynd ymlaen, tebygol i gwn godi ofn adar. Gyda materion baw cŵn, maent yn awgrymu i godi mater i sylw'r Warden Cŵn yn y lle cyntaf.
- 14.11 Wedi derbyn cais "Rhyddid gwybodaeth" gan ERW Consulting i wneud a chais cynllunio Cae Maes Mawr. Clerc wedi anfon y wybodaeth i ymwneud a'r cais ymlaen iddynt.
- 14.12 Parti Henoed wedi ei drefnu ar 29/11/14, yn Neuadd y Pentre'. Gwerthfawrogi'r gwaith mae Pwyllgor yr Henoed yn wneud.
- 14.13 Clerc i drafod incwm fforddfraint (wayleave) gyda Menter Môn ynglŷn â pholion ar dir comin.
- 14.14 Nifer o dyllau ar y ffordd o Penhwnllys Bach lawr at Bryngwyn.

## **15. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad.  
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.35 o'r gloch.  
Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 17/12/14 am 7.30 yn Capel Peniel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad